Cynllun Parhad Busniess
Templed Hunanasesu

CLILC • WLGA

Cyhoeddwyd gan: Grŵp Argyfyngau Sifil Posibl Awdurdodau Lleol Cymru
Cymeradwywyd gan: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

ALLWCH CHI FFORDDIO I BEIDIO Â CHAEL CYNLLUN?

Gall sawl mater amharu ar fusnes a gall pob busnes fod yn destun iddynt. Fel arfer, bydd rhybuddion yn dod cyn pethau fel tywydd garw, llifogydd, prinder tanwydd a phandemig ffliw; tra bod digwyddiadau ar fyr rybudd, fel tanau, methiant o ran cyfleustodau a thechnoleg, yn rhoi llai o amser i feddwl. Fel arfer, bydd angen ymateb yn gyflym ond mewn ffordd a bennwyd ymlaen llaw.

Mae'r mathau o ddigwyddiadau a allai achosi amhariad yn fwy niferus nag effeithiau'r amhariad, sy'n bygwth yr adnoddau y mae busnesau'n dibynnu arnynt. Mae angen i fusnesau feddu ar ddealltwriaeth glir o'r gofynion lleiad o ran adnoddau i gyflawni rhannau hanfodol y busnes a pha mor hir sydd ganddynt i adfer. Mae angen iddynt allu blaenoriaethu, adleoli asedau, a gwybod sut i ofyn am help.

Mae parhad busnes yn ymwneud â gwella'i gallu i wrthsefyll amhariad o ganlyniad i ddigwyddiadau lleol neu eang fel y gall busnesau barhau heb ymyrraeth neu gael eu hadfer o fewn yr amser lleiaf.

Gallai cynllunio o'r fath osgoi:

- Methiant eich busnes.
- Materion adnoddau dynol.
- Colli enw da neu gwsmeriaid.
- Effaith ar bremiymau yswiriant.
- Cosbau ariannol, cyfreithiol a rheoleiddio.

Mae 80% o fusnesau heb gynllun parhad busnes sy'n cael eu heffeithio gan ddigwyddiad mawr naill ai byth yn ailagor neu'n cau o fewn 18 mis.

Mae bron i 1 o bob 5 busnes yn dioddef amhariad sylweddol bob blwyddyn.

Mae parhad busnes yn darparu ymateb wedi'i gynllunio ac yn rhoi mesurau ar waith i leihau ymyrraeth a lleihau colledion.

Nod y templed hunanasesu hwn yw eich cynorthwyo i dynnu sylw'n gyflym at faterion y mae angen i chi eu hystyried i'ch helpu i baratoi ar gyfer argyfwng a allai amharu ar eich busnes.

Bydd hyn yn cynnwys gweithredu cynllun parhad busnes. Os oes gennych gynllun, yna efallai y bydd yn eich helpu i nodi unrhyw faterion nad ydych wedi ystyried o'r blaen.

Gall cynllun effeithiol wneud eich busnes yn fwy deniadol i gwsmeriaid gan ei fod bellach yn ofynnol i gyflenwyr gael cynllun parhad busnes. Efallai y bydd y broses gynllunio yn gwella'ch busnes a gallai cael cynllun parhad busnes hefyd leihau eich premiymau yswiriant.

Helpwch ni i'ch helpu chi trwy gwblhau'r templed hwn i weld a yw'ch busnes yn barod am argyfwng.

Cofiwch fod busnes sydd wedi cynllunio ar gyfer argyfwng yn fwy tebygol o oroesi na busnes sy'n dweud:

'NI FYDD YN DIGWYDD I MI'.

Mae'r templed hunanasesu hwn yn seiliedig ar ddogfen a gynhyrchwyd gan Gyngor Sir Rhydychen a Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Rydychen ac mae wedi cael ei gyhoeddi gyda'u caniatâd caredig.

CLILC • WLGA

BETH YDYCH CHI'N EI WNEUD DDYDD I DDYDD?	Ie	Na	Ddim yn gwybod
A ydych wedi ystyried effaith peryglon uniongyrchol ar eich busnes? *(methiant TG neu gyfarpar, colli pŵer, tân, absenoldeb staff, methiant yn y gadwyn gyflenwi a.y.b.)*			
Ydych chi wedi ystyried effaith peryglon allanol? *(Lladrad, llifogydd, tân o eiddo cyfagos, gwrthod mynediad i'ch eiddo)*			
PERSONÉL (Pobl yw'r ased a'r buddsoddiad mwyaf i'r mwyafrif o fusnesau. Yn ystod argyfwng, efallai y bydd angen i staff arwain neu gyflawni llawer o'r tasgau sydd angen. Gall eu cynnwys yn y broses o gynllunio a phrofi'r cynllun gryfhau'ch busnes.)	**Ie**	**Na**	**Ddim yn gwybod**
Oes gennych restr o rifau ffôn eich gweithwyr?			
Oes gennych restr o rifau ffôn cysylltiadau allweddol?			
Oes gennych ddisgrifiadau swydd cyfoes a siart hierarchaeth ar gyfer eich busnes gan gynnwys gweithwyr dros dro a gweithwyr contract?			
Oes gennych wybodaeth bersonol ar gyfer yr holl staff, gan gynnwys gweithwyr dros dro neu weithwyr contract?, e.e. perthynas agosaf			
A yw'r manylion hyn yn cael eu cadw mewn mwy nag un lleoliad diogel (un oddi ar y safle yn ddelfrydol)?			
PERSONÉL YN YSTOD AMHARIAD	**Ie**	**Na**	**Ddim yn gwybod**
Ydy'ch staff yn gwybod pwy sydd yn gyfrifol a sut i gysylltu â nhw yn ystod argyfwng?			
Ydy'ch staff yn gwybod beth i'w wneud mewn digwyddiad; ydych chi wedi rhannu'r cynllun?			
A oes gan eich staff rolau penodol os bydd amhariad?			
Oes gennych weithdrefn gyswllt y tu allan i oriau ar gyfer staff a chysylltiadau allweddol?			
Oes gennych staff sydd wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf neu hyfforddiant meddygol?			
Oes gennych drefniadau gweithio amgen - gweithio gartref, ail adeilad a.y.b.?			
Oes gennych staff penodol sydd â sgiliau allweddol; a yw staff eraill yn gwybod sut i gyflawni'r sgiliau hyn?			
A yw'r manylion hyn yn cael eu cadw mewn mwy nag un lleoliad diogel (un oddi ar y safle yn ddelfrydol)?			
ADEILADAU (Adeiladau fel arfer yw'r ased corfforol mwyaf ar gyfer unrhyw fusnes.)	**Ie**	**Na**	**Ddim yn gwybod**
Oes gennych chi asesiad risg tân?			
Oes gennych chi gynllun llawr/safle ar gyfer eich adeilad?			
A yw'r systemau plymio, gwresogi ac aerdymheru yn cael eu gwirio'n rheolaidd?			
Ydych chi'n cynnal gwiriadau diwedd y dydd ar ôl i bawb adael?			
Ydych chi'n sicrhau bod yr holl offer wedi'i ddiffodd?			
Ydych chi'n gwirio bod yr holl ddrysau a ffenestri wedi'u cloi?			

CYFLEUSTERAU ADEILADU YN YSTOD AMHARIAD	Ie	Na	Ddim yn gwybod
Oes gennych restr o gysylltiadau allweddol ar gyfer cynnal a chadw adeiladau/cyfarpar - trydan, nwy, dŵr, ffonau, lifftiau a.y.b?			
Ydych chi a'ch staff yn gyfarwydd â lleoliad y prif switshys a falfiau?			
Oes gennych weithdrefnau diogelwch tân, ac a ydych chi'n cynnal ymarferion tân rheolaidd?			
Oes gennych weithdrefn wacáu ar gyfer eich adeilad ac a yw staff wedi'u hyfforddi ac yn gyfarwydd â hi?			
Oes gennych bwyntiau gwacáu cynradd ac eilaidd?			
Oes gennych generadur wrth gefn?			
Oes gennych leoliad arall y gallech chi ei ddefnyddio yn ystod argyfwng?			
CYFARPAR CWMNÏAU (Mae llawer o fusnesau yn dibynnu ar gyfarpar neu gerbydau arbenigol.)	**Ie**	**Na**	**Ddim yn gwybod**
Oes gennych rywun sy'n atebol am asedau yn eich busnes?			
Oes gennych chi reolaethau dros symud cyfarpar y cwmni?			
Ydych yn cymryd stoc o'ch cyfarpar yn rheolaidd?			
Oes gennych gontractau cynnal a chadw cyfredol ar gyfer eich cyfarpar?			
DIOGELWCH (Mae diogelwch mewnol ac allanol yn bwysig. Gall lladrad, difrod maleisus a.y.b effeithio ar allu eich busnes i weithredu.)	**Ie**	**Na**	**Ddim yn gwybod**
Oes gennych system ddiogelwch wedi'i gosod?			
Oes gennych bolisi diogelwch?			
Oes gennych bolisi gweithdrefn mynediad ac ymadael ar gyfer staff/ymwelwyr/ cwsmeriaid/contractwyr?			
A yw contractwyr yn cael eu gwirio'n llawn (y cwmni yn ogystal â phob unigolyn)?			
Ydych chi'n gwirio tystlythyrau'n drylwyr?			
Ydych chi'n gwirio bod y ffensys, gatiau a drysau allanol yn gweithio'n effeithiol yn rheolaidd?			
A oes gan unrhyw un arall fynediad i'ch eiddo/ safle?			
DOGFENNAU PAPUR (Yn yr un modd â data electronig, mae'n bwysig diogelu data a gedwir ar ffurf copi caled. Mae'r data hwn yn agored i dân, llifogydd, lladrad, colled a.y.b.)	**Ie**	**Na**	**Ddim yn gwybod**
Ydych chi'n copïo, sganio neu gadw copi arall o'ch gwybodaeth?			
Ydych chi'n storio copïau papur mewn cynhwysyddion y gellir eu cloi sy'n gallu gwrthsefyll tân a llifogydd?			
Oes gennych gopïau mewn lleoliad oddi ar y safle?			
A oes rhywun yn gyfrifol am gynnal eich ffeiliau a'ch cyfrifon?			
Oes gennych bolisi desg glir?			

TECHNOLEG GWYBODAETH (mae TG yn ganolog i lawer o fusnesau ac mae bygythiadau i gyfrifiaduron a systemau yn hysbys iawn. Mae'n bwysig bod staff yn gwybod am unrhyw beryglon ac unrhyw systemau i ddiogelu eich TG)	**Ie**	**Na**	**Ddim yn gwybod**
A yw TG yn hanfodol i'ch busnes?			
Ydych chi'n cadw copïau wrth gefn o'ch gwybodaeth yn rheolaidd?			
Oes gennych gopi o'r wybodaeth wrth gefn oddi ar y safle?			
Oes gennych staff cynnal a chadw TG neu gontractwyr cynnal a chadw?			
Oes gennych gynllun adfer trychineb TG ac a ydych chi wedi profi hynny?			
A yw'ch meddalwedd gwrthfeirws yn gyfredol?			
A yw gwallau a logiau cyfrifiadurol yn cael eu monitro?			
A oes polisïau a gweithdrefnau diogelwch TG ar waith?			
A yw'r holl staff yn ymwybodol o bolisïau e-bost a defnyddio'r rhyngrwyd? A yw ffonau symudol a dyfeisiau wedi'u cynnwys?			
Ydych chi'n gwybod faint o lwyfannau/gweinyddwyr/rhaglenni neu systemau gweithredu sy'n cefnogi swyddogaethau hanfodol y busnes?			
A yw'ch system yn rhan o rwydwaith mwy?			
Ydych chi'n gwybod faint o amser bydd yn ei gymryd i adfer swyddogaethau TG?			
A oes gan liniaduron, ffyn cof bach a ffonau symudol gyfrinair wedi'i amgryptio?			
CYFLENWYR A CHWSMERIAID (Gall digwyddiadau y tu hwnt i'w reolaeth effeithio ar fusnes: gallai amharu ar gyflenwyr neu gwsmeriaid effeithio ar eich busnes. Gallai asesu'r perygl a rhoi gweithdrefnau ar waith leihau effaith amhariadau. Bydd cyfathrebu da â'ch cyflenwyr/cwsmeriaid yn eich galluogi i ymateb yn well mewn argyfwng.)	**Ie**	**Na**	**Ddim yn gwybod**
Oes gennych fanylion cyswllt cywir ar gyfer eich cyflenwyr a'ch cwsmeriaid?			
A yw'r rhain yn cael eu cadw mewn mwy nag un lleoliad diogel, un oddi ar y safle yn ddelfrydol?			
Ydych chi'n gweld cynlluniau parhad busnes eich cyflenwyr/cwsmeriaid allweddol? (Efallai y bydd gofyn bod gennych gynllun)			
A yw eu cynlluniau yn gofyn ichi leihau neu gynyddu eich busnes mewn ymateb i'w argyfwng?			
Oes gennych chi gwsmeriaid allweddol y byddai angen i chi fod mewn cysylltiad cyson â nhw yn ystod argyfwng?			
Pe bai un o'ch cyflenwyr neu gwsmeriaid allweddol yn mynd allan o fusnes, a fyddai'n effeithio ar eich busnes chi?			
LLEOLIAD (Ydy'ch busnes yn rhan o gyfadeilad, a yw ger ystâd ddiwydiannol, ar orlifdir a.y.b?)	**Ie**	**Na**	**Ddim yn gwybod**
A ydych wedi ystyried y mathau o beryglon a allai ddigwydd oherwydd gweithredoedd/gweithrediadau busnesau eraill cyfagos?			
Ydych chi wedi ystyried y peryglon sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd? e.e. dŵr, yr hinsawdd?			
Oes gennych gyswllt rheolaidd â busnesau cyfagos? e.e. fforwm busnes lleol?			
Oes gennych fanylion cyswllt ar gyfer y busnesau lleol yn eich ardal?			

YSWIRIANT (Gellir lleihau premiymau os allwch ddangos cynlluniau parhad busnes cadarn)	Ie	Na	Ddim yn gwybod
A oes gennych yswiriant digonol i dalu am amhariad i'r busnes?, e.e. cost atgyweiriadau, llogi staff dros dro, prydlesu llety a chyfarpar dros dro?			
Oes gennych gopïau o fanylion yswiriant mewn mwy nag un lleoliad i'ch galluogi i gysylltu â nhw ar unwaith pan fydd amhariad yn digwydd?			
A allwch chi leihau eich premiymau trwy gael cynllun neu roi unrhyw fesurau ar waith i leihau'r perygl o amhariad fel rhwystrau llifogydd?			

BAG 'BRYS' (Mae'n werth ystyried cael 'Bag Brys' i ddal eitemau sydd eu hangen mewn argyfwng. Dylai gynnwys digon o wybodaeth ac offer i ddechrau'r broses adfer ar gyfer eich busnes. Mae angen iddo fod yn hawdd ei gyrraedd, gyda chopi arall ohono mewn lleoliad oddi ar y safle'n ddelfrydol.

EITEM	Wedi'i gynnwys	
	IE	NA
Cynllun adfer busnesau		
Gweithdrefn Dân		
Manylion cyswllt ar gyfer gweithwyr		
Manylion cyswllt ar gyfer cyflenwyr allweddol		
Manylion cyswllt ar gyfer cwsmeriaid allweddol		
Cynllun Safle a Chynllun Tân		
Disgiau/ffyn cof bach wrth gefn ac ati.		
Gliniadur		
Manylion cyswllt ar gyfer gwasanaethau brys		
Manylion cyswllt ar gyfer gwasanaethau allweddol e.e. TG, ffonau, pŵer ac ati.		

EITEM	Wedi'i gynnwys	
	IE	NA
Pecyn Cymorth Cyntaf		
Ffôn symudol gyda chredyd		
Camera a batris sbâr		
Tortsh		
Masgiau llwch		
Tâp mesur		
Byrddau gwyn a phennau		
Allweddi sbâr ar gyfer adeiladu a cherbydau		
Deunydd ysgrifennu gan gynnwys padiau, pennau, pensiliau		
Megaffon os yw'ch busnes ar safle mawr		

CYNLLUN PARHAD BUSNES

Y cam nesaf yw ysgrifennu Cynllun Parhad Busnes. Bydd yr wybodaeth a gesglir wrth gwblhau'r asesiad hwn yn helpu i nodi meysydd y dylid rhoi sylw iddynt yn eich cynllun. Mae cynllun parhad busnes yn cyfuno'r holl wybodaeth o'r asesiad i roi trosolwg o sut mae'ch busnes yn ymateb i argyfwng ar bob lefel o'r sefydliad. Mae'n amlinellu cyfrifoldebau a gweithredoedd eich staff ac yn tynnu sylw at y peryglon sydd fwyaf tebygol o effeithio ar y busnes. Trwy brofi'r cynllun, gall staff ddod yn gyfarwydd â'r hyn a allai fod yn ofynnol a rhoi mewnbwn i welliannau a all fod o fudd i'r busnes. Bydd adolygu eich cynllun yn rheolaidd yn sicrhau y gellir cynnwys newidiadau i staff, cyflenwyr neu ffactorau allanol. Mae cynllun yn ddogfen fyw ac mae angen ei hadolygu a'i phrofi'n rheolaidd.

MWY O WYBODAETH

Er bod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004 i hyrwyddo parhad busnes, ni all ysgrifennu eich cynlluniau ar eich rhan (chi sy'n adnabod eich busnes a'ch proses allweddol orau). Fodd bynnag, mae yna lawer o ffynonellau gwybodaeth ar gael i'ch helpu chi. Edrychwch ar lyfryn Grŵp Argyfyngau Sifil Awdurdodau Lleol Cymru, **'Cynllunio Parhad Busnes - Allwch chi fforddio dolen wan?'** i gael mwy o gyngor.